Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Supported by Geldards law firm

Wales Charity Law Conference 2010

Cardiff City Stadium, Cardiff, 20 May 2010

Uncertainty hangs in the air. Public sector spending cuts are anticipated and yet their timing and extent are unknown. There's plenty of anxiety, lots of rumour, and probably not enough *fact* about dealing with the funding and regulatory challenges ahead:

- What are the legal remedies open to third sector organisations subject to an unfair, disproportionate or unexpected cut in funding?
  Ruth Henke QC will speak on: Hard law for hard times
- Collaboration with similar organisations may reduce costs - but how is it done effectively?
  Choosing to collaborate: helping charities succeed, Linda Ashby, Charity Commission
- What are the legal and financial risks associated with procured services? And what are the TUPE consequences?
  Procurement: an update and implications for the third sector, Ceri Delemore, Geldards
- Charities looking to diversify their income streams can trade legally - but is it necessary to set up a trading arm - and if so how do you do it?
  Giselle Davies, Geldards will speak on Governance: trading and the public benefit test

The 2010 Wales Charity Law Conference will help you take stock, examine risk and anticipate change. It will also offer:

- **An employment law update**
- **Practical guidance on managing risk and insolvency**
- **Breakout sessions on data protection, trustee payments and improving governance**
- **An introduction to the Charity Tribunal and the Fundraising Standards Board**

PROGRAMME

9.30	**Registration and coffee**
10.00	**Chair's welcome and opening remarks** Huw Williams, Geldards
10.05	**Keynote speech: Hard law for hard times: challenging bad funding decisions and practice** Ruth Henke QC
10.45	**Q & A**
10.55	**Trustees, risk management and insolvency** David Williams, Watts Gregory LLP Professor Adrian Walters, Geldards Professor of Law at Nottingham Trent University
11.25	**Q & A**
11.35	**Coffee and tea break**
11.55	**Breakout session (1-4)**
12.55	**Lunch**
13.50	**Choosing to collaborate: helping charities succeed** Linda Ashby, Charity Commission
14.20	**Q & A**
14.30	**Breakout session (5-8)**
15.30	**Coffee and tea break**
15.50	**Procurement: an update and implications for the third sector** Ceri Delemore, Geldards
16.20	**Q & A**
16.30	**Chair's closing remarks**

In partnership with

Geldards
law firm

Supporting the Wales Charity Law Conference on a voluntary basis.

Plenary sessions

Hard law for hard times: challenging bad funding decisions and practice
Ruth Henke QC

Can you use local compacts, funding codes or public law remedies to challenge bad decisions and practice? This plenary will include a consideration of legal principles and routes that can be used to challenge 'unjust' funding decisions.

Trustees, risk management and insolvency
David Williams, Watts Gregory LLP and Professor Adrian Walters, Geldards Professor of Law at Nottingham Trent University

David will consider the practical implications of the SORP requirement on trustees. In regard to risk management he will talk about how trustees can identify and manage risk with a focus on financial risk and insolvency.

Professor Adrian Walters will consider legal, governance and external risk – in particular, the risk posed by late funding renewal, funding withdrawal, and funding cuts, and the effect of a charity's insolvency on trustees.

Choosing to collaborate: helping charities succeed
Linda Ashby, Charity Commission

This plenary will look at the Charity Commission's remit and role in collaboration, and the role of trustees in collaboration. Linda will explore what collaboration is and the type of agreements appropriate to different organisations. She will highlight the pitfalls and give top tips as well as feedback from the sector and possible trends.

Procurement: an update and implications for the third sector
Ceri Delemore, Geldards

As the funding culture shifts from grants to procured services, staff and trustees need to consider the practical implications on their charity. This plenary will consider mission drift, the approvals process, trading, the differences between contracts and grants, who signs the tender bids and what information trustees should get from the charity's officers. Ceri will also provide an overview of recent developments in the field of procurement.

Breakout sessions (morning)

1. Governance: Codes of Conduct
Giselle Davies, Geldards

This session examines the importance of a Trustee Code of Conduct in managing conflicts of interest, loyalties, personalities and views. The session will review the content of a 'model' Code and enable participants to develop and use a Trustee Code of Conduct in their own charity.

2. Employment law: responding to cuts in public finance and a general update for the third sector
Emma Burns, Geldards

Repeated in afternoon session

The squeeze on public sector finances presents challenges both for third sector employers and staff. Third sector organisations may respond to reduced public funding by merging, collaborative working or reducing the size of its workforce. This session will look at the implications of these responses including TUPE consequences, and will also provide valuable guidance on the latest legislative and case developments such as the GP 'fit note' which comes into operation on 1 April 2010.

3. The Fundraising Standards Code
Simon Boex, Fundraising Standards Board

The Fundraising Standards Board was set up in 2006 to oversee a transparent and independent scheme for fundraising, encouraging high standards to increase public confidence in charitable giving. The importance of standards and adherence to the codes of practice will be examined in this session as well as issues of concern around fundraising and how the public are reassured to 'give with confidence'.

4. Data protection principles in a practical context
Rebecca Rumbul, Information Commissioner's Office

This session will provide an overview of the data protection principles and examine them in the context of case studies relevant to the activities of the third sector. The case studies will include consideration of marketing material, newsletters, opt in and opt outs, data protection statements and also the security of information held by organisations. The aim of the session is to enable participants to translate data protection policies into practical action which complies with legislation.

Breakout sessions (afternoon)

5. Governance: trading and the public benefit test *Giselle Davies and Andrew Evans, Geldards*

This session will look at the implications of trading for charities and their trustees. It looks at what is meant by trading and when charities are allowed to trade. It will examine whether a trading arm is required and how to manage and set one up.

6. Employment law: responding to cuts in public finance and a general update for the third sector *(repeat session)*
Emma Burns, Geldards

The squeeze on public sector finances presents challenges both for third sector employers and staff. Third sector organisations may respond to reduced public funding by merging, collaborative working or reducing the size of its workforce. This session will look at the implications of these responses including TUPE consequences, and will also provide valuable guidance on the latest legislative and case developments such as the GP 'fit note' which comes into operation on 1 April 2010.

7. An introduction to the work of the new Charity Tribunal
Alison McKenna, Principal Judge of the First-Tier Tribunal (Charity)

This session will provide an introduction to the work of the Charity Tribunal. It will provide an understanding of what the Charity Tribunal does, the type of cases it can hear and review the cases heard since its creation in March 2008.

8. Trustee payments
Tim Reese and Rosie Stokes, Charity Commission

The law relating to trustees' payments and expenses will be given practical consideration in this session. It will look at issues such as paying trustees for services and the 'best interests of the charity' requirement, as well as employing current or former trustees or related parties. Management meetings and conflict of interest will be considered, and how to apply for Charity Commission consent.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Gyda chefnogaeth **Geldards** law firm

Cynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru 2010

Stadiwm Dinas Caerdydd, Caerdydd, 20 Mai 2010

Mae'n gyfnod o ansicrwydd. Rhagwelir y bydd toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus ac nid ydym yn gwybod pryd nac i ba raddau y bydd hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Mae digon o bryder, llawer o sïon, ac nid oes digon o *ffeithiau* am sut mae delio â'r heriau sydd o'n blaenau o ran cyllid a rheoleiddio:

- Beth yw'r atebion cyfreithiol sydd ar gael i fudiadau'r trydydd sector os byddant yn wynebu toriad annheg, anghymesur neu annisgwyl mewn cyllid?
  Bydd Ruth Henke CF yn siarad am Cyfraith rwymol mewn cyfnod anodd
- Gallai cydweithio â mudiadau tebyg leihau costau - ond sut mae gwneud hyn yn effeithiol?
  Dewis cydweithio: helpu elusennau i lwyddo, Linda Ashby, Y Comisiwn Elusennau
- Beth yw'r risgiau cyfreithiol ac ariannol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau sydd wedi'u caffael? Beth yw'r canlyniadau o ran TUPE?
  Caffael: yr wybodaeth ddiweddaraf a'r goblygiadau i'r trydydd sector, Ceri Delemore, Geldards
- Mae elusennau sy'n gobeithio amrywio eu ffrydiau incwm yn cael masnachu'n gyfreithiol - ond oes rhaid iddynt sefydlu cangen fasnachu - os felly, sut mae gwneud hyn?
  Bydd Giselle Davies, Geldards yn siarad am Lywodraethu: masnachu a'r prawf budd cyhoeddus

Bydd Cynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru 2010 yn eich helpu chi i bwyso a mesur, i archwilio'r risgiau ac i ragweld newid. Hefyd, bydd yn cynnig:

- **Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfraith cyflogaeth**
- **Arweiniad ymarferol ar reoli risgiau ac ansolfedd**
- **Sesiynau ymylol ar ddiogelu data, taliadau ymddiriedolwyr a gwella'r broses lywodraethu**
- **Cyflwyniad i'r Tribiwnlys Elusennau a'r Bwrdd Safonau Codi Arian**

RHAGLEN

9.30	**Cofrestru a choffi**
10.00	**Gair o groeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd** Huw Williams, Geldards
10.05	**Araith agoriadol: Cyfraith rwymol mewn cyfnod anodd: herio penderfyniadau ac arferion gwael** Ruth Henke CF
10.45	**Cwestiwn ac ateb**
10.55	**Ymddiriedolwyr, rheoli risgiau ac ansolfedd** David Williams, Watts Gregory LLP Yr Athro Adrian Walters, Geldards, Athro'r Gyfraith ym Mhrifysgol Nottingham Trent
11.25	**Cwestiwn ac ateb**
11.35	**Amser coffi a the**
11.55	**Sesiwn ymylol (1-4)**
12.55	**Cinio**
13.50	**Dewis cydweithio: helpu elusennau i lwyddo** Linda Ashby, Y Comisiwn Elusennau
14.20	**Cwestiwn ac ateb**
14.30	**Sesiwn ymylol (5-8)**
15.30	**Amser coffi a the**
15.50	**Caffael: yr wybodaeth ddiweddaraf a'r goblygiadau i'r trydydd sector** Ceri Delemore, Geldards
16.20	**Cwestiwn ac ateb**
16.30	**Sylwadau cloi y Cadeirydd**

Mewn partneriaeth â

Geldards
law firm

Yn rhoi cefnogaeth wirfodddol i Gynhadledd Cyfraith Elusennau Cymru.

Sesiynau llawn

Cyfraith rwymol mewn cyfnod anodd: herio penderfyniadau ac arferion gwael

Ruth Henke CF

Allwch chi ddefnyddio compactau lleol, codau cyllido neu atebion cyfraith gyhoeddus i herio penderfyniadau ac arferion gwael? Bydd y sesiwn hwn yn cynnwys ystyried egwyddorion a llwybrau cyfreithiol y gellir eu defnyddio i herio penderfyniadau cyllido 'anghyfiawn'.

Ymddiriedolwyr, rheoli risgiau ac ansolfedd

David Williams, Watts Gregory LLP a Yr Athro Adrian Walters, Geldards, Athro'r Gyfraith ym Mhrifysgol Nottingham Trent

Bydd David yn ystyried goblygiadau ymarferol y gofyniad SORP ar ymddiriedolwyr. O ran rheoli risg, sut y gall ymddiriedolwyr ganfod a rheoli risg gan ganolbwyntio ar risg ariannol ac ansolfedd.

Bydd Yr Athro Adrian Walters yn ystyried risgiau cyfreithiol, risgiau llywodraethu a risgiau allanol. Yn enwedig, y risg a berir o ganlyniad i adnewyddu cyllid yn hwyr, tynnu cyllid yn ôl, a thoriadau i gyllid, ac effaith ansolfedd elusen ar ymddiriedolwyr.

Dewis cydweithio: helpu elusennau i lwyddo

Linda Ashby, Y Comisiwn Elusennau

Bydd y sesiwn hon yn ystyried cylch gwaith a rôl y Comisiwn Elusennau o ran cydweithio, ac yn ystyried rôl ymddiriedolwyr o ran cydweithio. Bydd Linda yn archwilio beth yw cydweithio a'r mathau o drefniadau sy'n briodol i wahanol fudiadau. Bydd yn tynnu sylw at y problemau ac yn rhoi awgrymiadau defnyddiol yn ogystal ag adborth gan y sector a thueddiadau posibl.

Caffael: yr wybodaeth ddiweddaraf a'r goblygiadau i'r trydydd sector

Ceri Delemore, Geldards

Wrth i'r diwylliant cyllido symud o grantiau i wasanaethau wedi'u caffael, mae angen i staff ac ymddiriedolwyr ystyried y goblygiadau ymarferol ar eu helusennau. Bydd y sesiwn hon yn ystyried gwyro oddi wrth genhadaeth, y broses gymeradwyo, masnachu, y gwahaniaethau rhwng contractau a grantiau, pwy sy'n llofnodi'r cynigion am dendrau, a pha wybodaeth y dylai ymddiriedolwyr ei chael gan swyddogion yr elusen. Bydd Ceri hefyd yn rhoi golwg gyffredinol o'r datblygiadau diweddar ym maes caffael.

Sesiynau ymylol (bore)

1. Llywodraethu: Codau Ymddygiad
Giselle Davies, Geldards

Bydd y sesiwn hon yn archwilio pa mor bwysig yw cael Cod Ymddygiad i Ymddiriedolwyr o ran rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau, teyrngarwch, personoliaethau a safbwyntiau. Bydd y sesiwn yn adolygu cynnwys Cod 'model' ac yn galluogi cyfranogwyr i ddatblygu ac i ddefnyddio Cod Ymddygiad i Ymddiriedolwyr yn eu helusennau eu hunain.

2. Cyfraith cyflogaeth: ymateb i doriadau mewn cyllid cyhoeddus a'r wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ar gyfer y trydydd sector *Emma Burns, Geldards*
Bydd y sesiwn hon yn cael ei hail-adrodd yn y prynhawn

Mae'r wasgfa ar gyllid y sector cyhoeddus yn cyflwyno heriau i weithwyr a staff y trydydd sector. Mae'n bosibl y bydd mudiadau'r trydydd sector yn ymateb i lai o gyllid cyhoeddus drwy uno, cydweithio neu leihau maint ei weithlu. Bydd y sesiwn hon yn ystyried goblygiadau'r ymatebion hyn gan gynnwys goblygiadau TUPE, a hefyd bydd yn rhoi arweiniad gwerthfawr ar y datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth ac achosion megis 'nodyn ffit' meddyg teulu a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2010.

3. Y Cod Safonau Codi Arian
Simon Boex, y Bwrdd Safonau Codi Arian

Sefydlwyd y Bwrdd Safonau Codi Arian yn 2006 i oruchwylio cynllun tryloyw ac annibynnol ar gyfer codi arian, annog safonau uchel a rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd ynghylch rhoi elusennol. Bydd y sesiwn hon yn archwilio pwysigrwydd safonau a glynu wrth y codau ymarfer yn ogystal â materion sy'n peri pryder ynghylch codi arian a sut y caiff y cyhoedd eu darbwyllo i 'roi'n hyderus'

4. Egwyddorion Diogelu Data mewn cyd-destun ymarferol
Rebecca Rumbul, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Bydd y sesiwn hon yn rhoi golwg gyffredinol ar egwyddorion diogelu data ac yn eu harchwilio yng nghyd-destun astudiaethau achos sy'n berthnasol i weithgareddau'r trydydd sector. Bydd yr astudiaethau achos yn cynnwys ystyried deunydd marchnata, cylchlythyrau, cynnwys neu beidio â chynnwys, datganiadau diogelu data a diogelwch gwybodaeth a gedwir gan fudiadau hefyd. Nod y sesiwn yw galluogi cyfranogwyr i drosi polisïau diogelu data yn gamau ymarferol sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Sesiynau ymylol (prynhawn)

5. Llywodraethu: masnachu a'r prawf budd cyhoeddus *Giselle Davies a Andrew Evans, Geldards*

Bydd y sesiwn hon yn edrych ar oblygiadau masnachu ar elusennau a'u hymddiriedolwyr. Bydd yn ystyried yr hyn a olygir wrth fasnachu a phryd y caiff elusennau fasnachu. Bydd yn archwilio p'un ai a oes angen cangen fasnachu arnynt a sut mae sefydlu a rheoli cangen fasnachu.

6. Cyfraith cyflogaeth: ymateb i doriadau mewn cyllid cyhoeddus a'r wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ar gyfer y trydydd sector *Emma Burns, Geldards*

Mae'r wasgfa ar gyllid y sector cyhoeddus yn cyflwyno heriau i weithwyr a staff y trydydd sector. Mae'n bosibl y bydd mudiadau'r trydydd sector yn ymateb i lai o gyllid cyhoeddus drwy uno, cydweithio neu leihau maint ei weithlu. Bydd y sesiwn hon yn ystyried goblygiadau'r ymatebion hyn gan gynnwys goblygiadau TUPE, a hefyd bydd yn rhoi arweiniad gwerthfawr ar y datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth ac achosion megis 'nodyn ffit' meddyg teulu a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2010.

7. Cyflwyniad i waith y Tribiwnlys Elusennau newydd *Alison McKenna, Prif Farnwr y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusennau)*

Bydd y sesiwn hon yn rhoi cyflwyniad i waith y Tribiwnlys Elusennau. Bydd y sesiwn yn darparu dealltwriaeth o'r hyn y mae'r Tribiwnlys yn ei wneud, y math o achosion y bydd yn eu gwrando ac yn adolygu'r achosion a gynhelir yn y Tribiwnlys ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2008.

8. Taliadau i ymddiriedolwyr
Tim Reese a Rosie Stokes, Y Comisiwn Elusennau

Caiff y gyfraith yng nghyswllt taliadau a threuliau ymddiriedolwyr eu hystyried yn ymarferol yn y sesiwn hon. Bydd y sesiwn yn ystyried materion megis talu ymddiriedolwyr am wasanaethau a gofyniad 'lles gorau'r elusen' yn ogystal â chyflogi ymddiriedolwyr presennol neu gyn ymddiriedolwyr neu bartïon cysylltiedig. Caiff cyfarfodydd rheoli a gwrthdaro rhwng buddiannau eu hystyried, a sut mae gwneud cais am ganiatâd gan y Comisiwn Elusennau.